**Tracey Burke**
Cyfarwyddwr Cyffredinol / Director General

Llywodraeth Leol, Tai & Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Local Government, Housing & Climate Change and Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mr Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

3 June 2024

Annwyl Archwilydd Cyffredinol

**Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru "*Llywodraethu Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol*"**

Rwy'n ysgrifennu ar ran Llywodraeth Cymru i ddiolch i chi am eich adroddiad diweddar ynghylch "*Llywodraethu Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol*"[1]. Hoffwn ddiolch hefyd i chi a'ch tîm eto am yr ymgysylltu a fu drwy gydol y gwaith hwn. Rydym yn croesawu'r canfyddiadau ac yn cynnig yr ymateb canlynol i'r pedwar argymhelliad yn yr adroddiad. Mae fersiwn gryno o'r ymatebion hynny wedi'i chynnwys yn y Ffurflen Ymateb Sefydliadol sydd ynghlwm wrth y llythyr hwn.

***Argymhelliad 1 - Cynorthwyo aelodau i gyflawni eu rôl***
*Mae'r adroddiad hwn yn amlygu gwendidau yn y cymorth a'r canllawiau parhaus a ddarperir i aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru. I fynd i'r afael â hyn, rydym yn argymell bod APCau a Llywodraeth Cymru'n cydweithio er mwyn:*
• *cytuno ar y cymorth a'r canllawiau a fydd yn cael eu rhoi i aelodau o APCau;*
• *cytuno pa elfennau o'r cymorth hwn a'r canllawiau hyn fydd yn cael eu darparu gan Lywodraeth Cymru a pha rai y bydd APCau yn gyfrifol amdanynt; a*
• *chyfleu hyn yn eglur i aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru.*

**Derbyn***.* Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn bod angen dealltwriaeth glir o'r rolau priodol wrth roi cymorth i aelodau a bydd yn parhau i weithio gydag APCau ac eraill ar hyn. Rydym yn cydnabod bod canfyddiad yn parhau ymhlith rhai o aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol fel ei gilydd bod gwahaniaeth yn eu rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd.

Gan ein bod yn ystyried bod gan bob aelod o'r APC statws cyfartal, nid ydym yn credu y dylem ddarparu cymorth a chanllawiau ychwanegol, uwchlaw'r hyn y mae'r APC ei hun yn ei

[1] Llywodraethu Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (audit.wales)

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@gov.wales
Gwefan ● website: www.wales.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

roi, i'r rhai a benodir gennym ni ein hunain ac nid i'r rhai a benodir gan Awdurdodau Lleol. Rydym o'r farn y byddai gwneud hynny yn gwaethygu canfyddiadau bod gennym ddwy set wahanol o aelodau APC.

Er gwaethaf hyn, rydym wedi cydnabod, ac yn dal i wneud hynny, y gallai Llywodraeth Cymru fod â rôl o ran rhoi cymorth ychwanegol i'r holl aelodau, mewn cytundeb ag Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol. Mae hyn yn bennaf mewn ardaloedd o ddiddordeb cenedlaethol. Er enghraifft, rydym wedi hwyluso rhaglen hyfforddi ym mis Ionawr a mis Chwefror 2024 ar gyfer yr holl aelodau mewn tri maes allweddol – Adfer Natur, Cydraddoldeb, Cynhwysiant ac Amrywiaeth, a Rhagoriaeth mewn Llywodraethu. Mae hyn wedi ategu'r hyfforddiant presennol a ddarperir gan APCau ar gyfer eu holl aelodau. Byddwn yn gweithio gyda'r APCau i nodi anghenion hyfforddi yn y dyfodol.

Mae rhaglen waith barhaus, a gychwynnwyd yn 2023, i ymgorffori rhagoriaeth mewn llywodraethu o fewn yr APCau. Ochr yn ochr â darparu'r sesiwn hyfforddi ar Ragoriaeth mewn Llywodraethu ar gyfer aelodau APC, rydym yn datblygu llawlyfr ar ragoriaeth mewn llywodraethu, i gyd-fynd â thair sesiwn hyfforddi pellach â ffocws sy'n cwmpasu Llywodraethu Cynaliadwy a Moesegol, Llywodraethu Ariannol effeithiol a Llywodraethu Risg. Bydd hyn yn cael ei gwblhau a'i fabwysiadu gan APCau yn 2024-25.

Yn 2024-25 bydd tîm polisi Parciau Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn nodi’r cefnogaeth y mae’n cynllunio ei gynnig, gan gynnwys hyfforddiant, i aelodau APCau, a sicrhau bod y rhain yn cael eu hadlewyrchu mewn gwaith papur allweddol megis Telerau Penodi aelodau APCau, lle cânt eu penodi gan Weinidogion Cymru, yn ogystal â llythyrau Tymor y Llywodraeth gan Weinidogion Cymru at Gadeiryddion yr APCau yn y dyfodol. Bydd y gefnogaeth hon yn cael ei thrafod a’i rhannu gyda’r APCau.

***Argymhelliad 2*** *Sicrhau bod enwebiadau ar gyfer aelodau’n cefnogi llywodraethu da. Mae’r adroddiad hwn yn amlygu diffyg eglurder ac anghysondeb o ran sut y mae aelodau sy’n cynrychioli awdurdodau lleol yn cael eu henwebu i eistedd ar APCau. Mae hefyd yn amlygu diffyg amrywiaeth ymhlith aelodau o APCau sy’n cynrychioli awdurdodau lleol. I helpu i fynd i’r afael â hyn, rydym yn argymell bod APCau yn gweithio gyda CLlLC a Llywodraeth Cymru i:*
• *adolygu pa un a yw’r protocol ar gyfer enwebiadau’n dal i fod yn addas ar gyfer y diben;*
• *codi ymwybyddiaeth o’r protocol a sut y gall gefnogi enwebiadau; a*
• *hybu ei ddefnydd ymhlith awdurdodau lleol perthnasol.*

**Derbyn**. Bydd Llywodraeth Cymru, CLlLC ac APCau yn adolygu'r protocol flwyddyn cyn yr etholiadau Llywodraeth Leol nesaf, a fydd yn cael eu cynnal yn 2027. Rydym yn cydnabod yn llawn faterion o ran sut mae aelodau Awdurdodau Lleol yn cael eu dewis ar gyfer aelodaeth ar APCau. Rydym hefyd yn cydnabod y diffyg amrywiaeth ymhlith yr aelodau hynny.

Cafodd y protocol ei adolygu ddiwethaf adeg etholiadau blaenorol yr Awdurdodau Lleol. Gan weithio gyda CLlLC a'r APCau, gwnaethom ddiweddaru'r protocol yn gynhwysfawr gyda'r bwriad o wneud rôl aelod APC yn fwy deniadol i aelodau Awdurdodau Lleol, ac i arweinwyr grwpiau o fewn cynghorau sir ystyried ystod ehangach o faterion a

blaenoriaethau wrth benderfynu ar enwebiadau i APCau. Ochr yn ochr â hyn, buom yn gweithio gydag APCau i gynhyrchu dau fideo byr o aelodau APC yn siarad am eu profiadau a'r manteision o wasanaethu ar APCau. Buom hefyd yn gweithio gydag APCau ac Awdurdodau Lleol drwy eu Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd priodol, yn ogystal â CLlLC, i hybu'r protocol newydd.

Nid yw'r protocol yn ddogfen statudol ac er gwaethaf yr adolygiad a'r gwaith hyrwyddo a wnaed gennym ar yr achlysur hwn, nid oeddem yn ymwybodol o unrhyw effaith uniongyrchol ar sut y dewisodd Awdurdodau Lleol aelodau APC ar ôl ei gyflwyno. Credwn mai'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer APCau, yn ogystal â phroffil amrywiaeth aelodau'r Awdurdodau Lleol, yw'r prif ffactorau cyfyngu yn hyn o beth.

***Argymhelliad 3 – Gwella atebolrwydd ar gyfer aelodau.***
*I ddarparu sicrwydd ynghylch cyfraniad aelodau at lywodraethu APCau, ac i helpu i oleuo’r ddarpariaeth hyfforddiant a datblygiad yn y dyfodol, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, APCau ac awdurdodau lleol sy’n rhan ohonynt yn cydweithio i ddatblygu fframwaith atebolrwydd ar gyfer pob aelod o APCau sydd:*
• *yn gwerthuso eu cyfraniad at yr APC; ac*
• *yn gallu cael ei ddefnyddio i dargedu cymorth a datblygiad i alluogi aelodau o APCau i fod yn effeithiol yn eu rôl.*

**Derbyn yn rhannol**. Yn 2022, gwnaeth Llywodraeth Cymru adolygu a gwella'r system atebolrwydd a pherfformiad sydd ar waith ar gyfer ei phenodeion ei hun. Roedd hyn yn cynnwys gofyniad am arfarniad blynyddol ar gyfer yr holl aelodau a benodwyd gan Weinidogion Cymru. Bwriedir i hyn nid yn unig nodi materion ynghylch perfformiad, ond hefyd ganiatáu i Aelodau unigol nodi gofynion hyfforddi a datblygu a gofynion cymorth eraill. Rydym yn annog, ond ni allwn fandadu bod yr APCau yn mabwysiadu'r un arfarniad ar gyfer enwebeion yr Awdurdodau Lleol.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai mater i'r APCau eu hunain yn bennaf yw ymateb i'r anghenion a'r materion a amlygir mewn unrhyw system berfformio fel rhan o'u gwasanaeth cymorth cynhwysfawr eu hunain i aelodau. Caiff aelodau a benodir gan Weinidogion Cymru eu harfarnu'n rheolaidd gan Gadeiryddion yr APCau a chaiff yr wybodaeth honno ei rhannu â swyddogion. Er mwyn sicrhau cysondeb ac arferion gorau, gwnaethom annog APCau i fabwysiadu'r un system arfarnu ar gyfer y rhai a benodir gan Awdurdodau Lleol. Byddai hyn yn caniatáu i faterion perfformiad gael eu nodi gydag Awdurdodau Lleol cysylltiedig ac i ddull cyson gael ei ddefnyddio ar gyfer yr holl aelodau. Rydym ar ddeall fod hyn ond wedi bod yn rhannol lwyddiannus.

Dylinir y llawlyfr Rhagoriaeth mewn Llywodraethu y cyfeirir ato yn yr ymateb i Argymhelliad 1 gan brotocol perfformiad ar gyfer aelodau APCau, a fydd yn ceisio gwella effeithiolrwydd a chysondeb o ran cyfraniadau gan Aelodau a galluogi gwaith monitro perfformiad ac ymddygiadau. Bydd hyn yn adeiladu ar y system arfarnu perfformiad y cyfeirir ati uchod, gyda'r nod o sicrhau bod system fwy cyson ar waith ar gyfer yr holl aelodau. Disgwylir i’r llawlyfr gan ei gyhoeddi yn 2024-25.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn, unwaith y caiff aelod ei benodi i APC, fod rôl yr aelodau yr un peth yn y bôn - p'un a benodir gan Lywodraeth Cymru neu gan Awdurdodau Lleol.

Unwaith y byddant yn dod yn aelod, mae pob unigolyn yn atebol i Awdurdod y Parc ei hun, ac yn ei gynrychioli, fel aelod cyfartal. Credwn felly y dylai’r cyfrifoldeb am arwain ar ddatblygu fframwaith atebolrwydd i’w holl aelodau fod yn bennaf gyda’r APCau eu hunain; gyda chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru a CLlLC/Awdurdodau Lleol.

***Argymhelliad 4 - Adolygu pa un a yw’r model yn cyflawni’r hyn a fwriadwyd.***
*Mae’r adroddiad hwn yn amlygu gwendidau yn y modd y rhoddir y model llywodraethu ar waith a sut y mae’r materion hyn yn codi cwestiynau ynghylch ei addasrwydd. I sicrhau ei fod yn dal i fod yn addas ar gyfer y diben ac yn adlewyrchu’r heriau arbennig a gwahanol y mae pob APC yn eu hwynebu rydym yn argymell, o fewn y graddfeydd amser ar gyfer dynodi parc cenedlaethol newydd, bod Llywodraeth Cymru’n adolygu’r model llywodraethu ar gyfer APCau.*

**Derbyn yn rhannol.** Dros y ddwy flynedd ddiwethaf rydym wedi cymryd sawl cam, gyda'r APCau eu hunain, i wella atebolrwydd, dealltwriaeth a chymorth i holl aelodau APC.

Serch hynny, fel y noda eich adroddiad, mae rhai gwendidau yn parhau i fod yn anoddach eu datrys o fewn y fframwaith presennol.

O ran y Parc Cenedlaethol newydd arfaethedig, rydym yn parhau i drafod hyn gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, yr awdurdod dynodi.

Byddai newidiadau sylweddol i fodel llywodraethu'r APCau eu hunain yn gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol a lefel o gonsensws gyda Llywodraeth Leol. Ni fyddai'n briodol nac yn ymarferol i wneud newidiadau deddfwriaethol i fodel llywodraethu'r APC ar yr un pryd â'r broses ddynodi sy'n mynd rhagddi ar hyn o bryd. Rydym o’r farn ei bod yn fwy priodol bod newidiadau sylweddol fel y rhain yn digwydd unwaith y bydd y broses hon wedi'i chwblhau, cyn sefydlu corff newydd. Bydd ystyried arferion gorau ynghylch llywodraethu yn rhan o broses sefydlu unrhyw gorff newydd dilynol ar ôl y broses ddynodi bresennol.

Rwy'n gobeithio y bydd yr ymateb hwn yn ddefnyddiol i chi ac edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda chi a'ch timau.

Anfonwyd copïau o'r llythyr hwn at Gadeirydd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd.

Yn gywir,

Tracey Burke
Cyfarwyddwr Cyffredinol
Llywodraeth Leol, Tai & Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

# Ymateb sefydliadol

**Teitl yr adroddiad:** Llywodraethu Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol

**Dyddiad cwblhau:** Mai 2024

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb sefydliadol<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad Cwblhau<br>Nodwch erbyn pryd bydd y camau arfaethedig wedi'u cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| **A1** | Mae’r adroddiad hwn yn amlygu gwendidau yn y cymorth a’r canllawiau parhaus a ddarperir i aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru. I fynd i’r afael â hyn, rydym yn argymell bod APCau a Llywodraeth Cymru’n cydweithio er mwyn:<br>• cytuno ar y cymorth a’r canllawiau a fydd yn cael eu rhoi i aelodau o APCau;<br>• cytuno pa elfennau o’r cymorth hwn a’r canllawiau hyn fydd yn cael eu darparu gan Lywodraeth Cymru a pha rai y bydd APCau yn gyfrifol amdanynt; a<br>• chyfleu hyn yn eglur i aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru. | **Derbyn** - Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn bod angen dealltwriaeth glir o'r rolau priodol wrth roi cymorth i aelodau a bydd yn parhau i weithio gydag APCau ac eraill ar hyn. Rydym yn cydnabod bod canfyddiad yn parhau ymhlith rhai o aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol fel ei gilydd bod gwahaniaeth yn eu rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd<br><br>Yn 2024-25 bydd tîm polisi Parciau Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn nodi’r cefnogaeth y mae’n cynllunio ei gynnig, gan gynnwys hyfforddiant, i aelodau APCau, a sicrhau bod y rhain yn cael eu hadlewyrchu mewn gwaith papur allweddol megis Telerau Penodi aelodau APCau, lle cânt eu penodi gan Weinidogion Cymru, yn ogystal â llythyrau Tymor y Llywodraeth gan Weinidogion Cymru at Gadeiryddion yr APCau yn y dyfodol. Bydd y gefnogaeth hon yn cael ei thrafod a’i rhannu gyda’r APCau. | Mawrth 2025 | Simon Pickering |
| **A2** | Mae’r adroddiad hwn yn amlygu diffyg eglurder ac anghysondeb o ran sut y mae aelodau sy’n cynrychioli awdurdodau lleol yn cael eu henwebu i eistedd ar APCau. Mae hefyd yn amlygu diffyg amrywiaeth ymhlith aelodau o | **Derbyn** - Bydd Llywodraeth Cymru, CLlLC ac APCau yn adolygu'r protocol flwyddyn cyn yr etholiadau Llywodraeth Leol nesaf, a fydd yn cael eu cynnal yn 2027.<br><br>Rydym yn cydnabod yn llawn faterion o ran sut mae aelodau awdurdodau lleol yn cael eu dewis ar gyfer aelodaeth ar | Mai 2027 | Simon Pickering |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | APCau sy'n cynrychioli awdurdodau lleol. I helpu i fynd i'r afael â hyn, rydym yn argymell bod APCau yn gweithio gyda CLlLC a Llywodraeth Cymru i:<br>• adolygu pa un a yw'r protocol ar gyfer enwebiadau'n dal i fod yn addas ar gyfer y diben;<br>• codi ymwybyddiaeth o'r protocol a sut y gall gefnogi enwebiadau; a<br>• hybu ei ddefnydd ymhlith awdurdodau lleol perthnasol. | APCau. Rydym hefyd yn cydnabod y diffyg amrywiaeth ymhlith yr aelodau hynny.<br><br>Cafodd y protocol ei adolygu ddiwethaf adeg etholiadau blaenorol yr Awdurdodau Lleol, pan wnaethon ni hefyd weithio gyda CLlLC a'r APCau i hybu'r defnydd ohono. | | |
| **A3** | I ddarparu sicrwydd ynghylch cyfraniad aelodau at lywodraethu APCau, ac i helpu i oleuo'r ddarpariaeth hyfforddiant a datblygiad yn y dyfodol, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, APCau ac awdurdodau lleol sy'n rhan ohonynt yn cydweithio i ddatblygu fframwaith atebolrwydd ar gyfer pob aelod o APCau sydd:<br>• yn gwerthuso eu cyfraniad at yr APC; ac<br>• yn gallu cael ei ddefnyddio i dargedu cymorth a datblygiad i alluogi aelodau o APCau i fod yn effeithiol yn eu rôl. | **Derbyn yn rhannol**. Yn 2022, gwnaeth Llywodraeth Cymru adolygu a gwella'r system atebolrwydd a pherfformiad sydd ar waith ar gyfer ei phenodeion ei hun. Roedd hyn yn cynnwys gofyniad am arfarniad blynyddol ar gyfer yr holl aelodau a benodwyd gan Weinidogion Cymru. Bwriedir i hyn nid yn unig nodi materion ynghylch perfformiad, ond hefyd ganiatáu i Aelodau unigol nodi gofynion hyfforddi a datblygu a gofynion cymorth eraill. Rydym yn annog, ond ni allwn fandadu bod yr APCau yn mabwysiadu'r un arfarniad ar gyfer enwebeion yr Awdurdodau Lleol.<br><br>Rydym hefyd yn datblygu llawlyfr Rhagoriaeth mewn Llywodraethu a phrotocol ar gyfer yr holl aelodau, a fydd yn cynnwys adran ar berfformiad. Nod hyn fydd gwella effeithiolrwydd a chysondeb o ran cyfraniadau gan Aelodau a galluogi gwaith monitro perfformiad ac ymddygiadau. Disgwylir i'r llawlyfr gael ei gyhoeddi yn 2024-25.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru o'r farn, unwaith y caiff aelod ei benodi i APC, fod rôl yr aelodau yr un peth yn y bôn – p'un a benodir gan Lywodraeth Cymru neu gan Awdurdodau Lleol. Unwaith y | Mawrth 2025 | Simon Pickering |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | byddant yn dod yn aelod, mae pob unigolyn yn atebol i Awdurdod y Parc ei hun, ac yn ei gynrychioli, fel aelod cyfartal. Caiff hyn ei gyfleu i'r aelodau drwy eu Telerau ac Amodau Penodi. Credwn felly y dylai'r cyfrifoldeb am arwain ar ddatblygu fframwaith atebolrwydd i'w holl aelodau fod yn bennaf gyda'r APCau eu hunain; gyda chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru a CLlLC/Awdurdodau Lleol. | | |
| **A4** | Mae'r adroddiad hwn yn amlygu gwendidau yn y modd y rhoddir y model llywodraethu ar waith a sut y mae'r materion hyn yn codi cwestiynau ynghylch ei addasrwydd. I sicrhau ei fod yn dal i fod yn addas ar gyfer y diben ac yn adlewyrchu'r heriau arbennig a gwahanol y mae pob APC yn eu hwynebu rydym yn argymell, o fewn y graddfeydd amser ar gyfer dynodi parc cenedlaethol newydd, bod Llywodraeth Cymru'n adolygu'r model llywodraethu ar gyfer APCau. | **Derbyn yn rhannol**. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf rydym wedi cymryd sawl cam, gyda'r APCau eu hunain, i wella atebolrwydd, dealltwriaeth a chymorth i holl aelodau APC.<br><br>Byddai newidiadau sylweddol i fodel llywodraethu'r APCau eu hunain yn gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol a lefel o gonsensws gyda Llywodraeth Leol. Ni fyddai'n briodol nac yn ymarferol i wneud newidiadau deddfwriaethol i fodel llywodraethu'r APC ar yr un pryd â'r broses ddynodi sy'n mynd rhagddi ar hyn o bryd. Rydym o'r farn ei bod yn fwy priodol bod newidiadau sylweddol fel y rhain yn digwydd unwaith bydd y broses hon wedi'i chwblhau, cyn sefydlu corff newydd. Bydd ystyried arferion gorau ynghylch llywodraethu yn rhan o broses sefydlu unrhyw gorff newydd dilynol ar ôl y broses ddynodi bresennol. | Mawrth 2026 | Simon Pickering |